ERW

Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

# Ein Rhanbarth ar Waith

## Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru

# Datganiad o Gyfrifon 2015/16

**Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.**
**Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.**

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.

| MYNEGAI | TUD |
|---|---|
| **RHAGAIR EGLURHAOL – CRYNODEB O'R PERFFORMIAD ARIANNOL** | 3 - 8 |
| | |
| **TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD** | 9 - 10 |
| | |


| | |
|---|---|
| **Datganiad o Gyfrifon** | |
| **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon** | 11 - 12 |
| **Datganiadau Ariannol Craidd - Egwyddorion Sylfaenol** | |
| Safonau Adrodd Ariannol | 13 |
| Cysyniadau Cyfrifyddu | 14 |
| Barnau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifiad o Risg | 14-16 |
| Datganiad ar y Polisïau Cyfrifyddu | 16-19 |
| **Datganiadau Ariannol Craidd - Cydrannau a Manylion** | 20 |
| Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn | 21 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 22 |
| Mantolen | 23 |
| Datganiad Llif Arian | 24 |
| **Nodiadau ar y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn** | |
| Addasiad rhwng y Sail Cyfrifo a'r Sail Ariannu Rheoleiddio | 25 |
| Cronfeydd Wrth Gefn y gellir eu defnyddio | 25 |
| Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio | 25 |
| **Nodiadau ar y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Fantolen** | |
| Grantiau Refeniw | 26-27 |
| Costau Pensiwn | 27 |
| Costau Eithriadol | 28 |
| Manylion Cydnabyddiaeth | 28-29 |
| Ffioedd archwilio | 29 |
| Partïon Cysylltiedig | 29 |
| Dyrannu Adnoddau | 30-33 |
| Dyledwyr & Chredydwyr | 34-35 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 35 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | 36 |
| | |

**RHAGAIR EGLURHAOL**

Mae Ein Rhanbarth ar Waith yn wasanaeth effeithiolrwydd ysgolion proffesiynol integredig sy'n gyrru gwella ysgolion a chyflawniad dysgwyr ar draws ardal gyfunol chwe awdurdod lleol yn rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru o fewn tri hyb: -

- Sir Gaerfyrddin / Sir Benfro
- Ceredigion / Powys
- Castell-Nedd Port Talbot / Abertawe

Mae gan ranbarth ERW drefniadau llywodraethu wedi'u sefydlu'n dda yn eu lle gyda Chyd-bwyllgor wedi'i gyfansoddi'n gyfreithiol yn dwyn y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i gyfrif am ei berfformiad o ran gwella deilliannau i ddysgwyr. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi'i sefydlu trwy gytundeb cyfreithiol wedi'i lofnodi a'i selio gan bob Cyngor cyfansoddol ar 16 Gorffennaf 2014, ac mae'n gweithredu drwy'r cytundeb hwnnw. Roedd gwaith consortiwm rhwng Cyfarwyddwyr Addysg wedi bod yn berthynas barhaus am nifer o flynyddoedd cyn ffurfio'r Cyd-bwyllgor.

Mae Cyngor Sir Penfro wedi cael ei benodi'n arweinydd cyllid ar gyfer y rhanbarth. Fel y cyfryw mae ERW yn gweithredu o dan Reoliadau Ariannol, Treth Cyflogwr a chofrestru ar gyfer TAW, cynlluniau pensiwn, polisïau Adnoddau Dynol (fel y maent yn ymwneud â staff craidd cyflogedig canolog) a holl bolisïau cyfrifyddu perthnasol Cyngor Sir Penfro.

Dilynir polisïau caffael Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n arwain ar Wasanaethau Llywodraethu a Phwyllgorau, Cyngor Sir Ceredigion sy'n arwain ar ddyletswyddau Swyddog Cyfreithiol a Monitro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy'n arwain ar Reoli Risg a Sir Abertawe sy'n arwain ar Archwilio.

**CRYNODEB O'R PERFFORMIAD ARIANNOL 2015/16**

Mae'r crynodeb o'r perfformiad ariannol yn rhoi trosolwg lefel uchel o sefyllfa ariannol y Consortiwm ar 31ain Mawrth 2016. Wedi'i nodi yn y paragraffau canlynol mae'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2015/16 o gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol a gytunwyd gan Gyd-bwyllgor ERW ar 9 Chwefror 2015 ac ystyriaeth o'r gyllideb ddrafft a sefyllfa gyllid y Tîm Canolog ar gyfer 2016/17 a 2017/18 a gymeradwywyd gan y Cyd-bwyllgor yn Chwefror 2016.

Bydd y sefyllfa Alldro Ddrafft yn cael ei hadrodd i Gyd-bwyllgor ERW ar 10 Mehefin 2016.

## 1. GWARIANT REFENIW

| Tim Canolog | 2015/16 Tim Canolog | | 2015/16 Grantiau | 2015/16 Cyfanswm | 2014/15 Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif Gwreiddiol £000 | Gwariant Gwir £000 | Gwariant Gwir £000 | Gwariant Gwir £000 | Gwariant Gwir £000 |
| **Gwariant Gros** | | | | | |
| Cyflogeion | 379 | 349 | 850 | 1,199 | 730 |
| Safleoedd | 20 | 28 | - | 28 | 19 |
| Cludiant | 10 | 6 | 17 | 23 | 15 |
| Cyfieithu | 10 | 33 | 60 | 93 | 19 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 74 | 55 | 1,879 | 1,934 | 1,200 |
| Hwyluso | 10 | 9 | - | 9 | 43 |
| Grantiau I'r ALIau | - | - | 62,883 | 62,883 | 31,030 |
| **Cyfanswm Gwariant Gros** | **503** | **480** | **65,689** | **66,169** | **33,056** |
| **Incwm** | | | | | |
| Cyfraniadau gan Aelod Awdurdodau | (250) | (250) | - | (250) | (267) |
| Grant Llywodraeth Cymru | (153) | (288) | (65,605) | (65,893) | (32,390) |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | - | - | - | - | (230) |
| Incwm Grant Arall | - | (2) | (84) | (86) | - |
| **Cyfanswm Income** | **(403)** | **(540)** | **(65,689)** | **(66,229)** | **(32,887)** |
| **Gwariant Net** | **100** | **(60)** | **-** | **(60)** | **169** |
| Dosbarthiad o gronfeydd wrth gefn | (100) | (10) | - | (10) | (169) |
| Dosbarthiad o gronfeydd wrth gefn | - | 70 | - | 70 | - |

**CYLLIDEB DDRAFFT A SEFYLLFA ARIANNOL 2016/17 & 2017/18**

| Tim Canolog | 2016/17 Amcangyfrif Gwariant £000 | 2017/18 Amcangyfrif Gwariant £000 |
|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | | |
| Cyflogeion | 402 | 415 |
| Safleoedd | 33 | 33 |
| Cludiant | 10 | 10 |
| Cyfieithu | 35 | 35 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 61 | 61 |
| Hwyluso | 10 | 10 |
| Grantiau I'r ALlau | - | - |
| **Cyfanswm Gwariant Gros** | **551** | **564** |
| **Incwm** | | |
| Cyfraniadau gan Aelod Awdurdodau | (250) | (250) |
| Grant Llywodraeth Cymru | (150) | (150) |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | - | - |
| **Cyfanswm Income** | **(400)** | **(400)** |
| **Gwariant Net** | **151** | **164** |
| Dosbarthwyd o gronfeydd wrth gefn | (151) | (164) |

### 1.1 Sylwadau ar Berfformiad Refeniw 2015/16

Gwariant gros Consortiwm ERW ar gyfer 2015/16 oedd £66.69 miliwn a oedd yn cynnwys £62.883 miliwn mewn grantiau yn cael eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r chwe Awdurdod Lleol cyfansoddol.

Derbyniodd Cyd-bwyllgor a Bwrdd Gweithredol ERW adroddiadau cyllideb rheolaidd drwy gydol y flwyddyn a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf iddynt ar adnoddau grant ychwanegol wrth iddynt ddod ar gael. Gellir gweld holl adroddiadau'r Cyd-bwyllgor ar wefan ERW www.erw.cymru.

Mae'r Tîm Canolog a'i allu i gefnogi'r rhanbarth wedi aros yn gyson drwy 2015/16. Ymddeolodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau Dynol ym mis Awst 2015 ac ni chafodd neb newydd ei benodi tan fis Mawrth 2016, gan arwain at arbediad ar y gyllideb wreiddiol.

Ym mis Gorffennaf 2015, trafodwyd isbrydles gyda Theatr Genedlaethol Cymru ar gyfer ystafelloedd a lle ychwanegol. Cynyddodd hwn y gwariant £8k ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Roedd costau cyfieithu yn uwch na'r gyllideb wreiddiol gan £23k, ond nodwyd hyn yn gynnar yn ystod y flwyddyn.

Gwnaed arbedion mewn Cyflenwadau a Gwasanaethau o £19k yn ystod 2015/16. Y prif arbedion oedd Archwilio Allanol a oedd £6k yn llai nag a ragwelwyd, Cyfathrebu a oedd £10k yn llai o ganlyniad i arian grant a ddyfarnwyd, ac arbediad o £8k ar gostau Adnoddau Dynol. Roedd taliadau ychwanegol ar gyfer defnyddio llungopïwr ac argraffu, sef cyfanswm o £5k.

Mae cyfraniadau Awdurdodau Lleol ar gyfer 2015/16 wedi cael eu casglu oddi wrth y chwe phartner, sef swm o £250k. Yn wahanol i gonsortia eraill, nid yw ERW yn cyflogi ymgynghorwyr her gwella ysgolion yn uniongyrchol. Maent yn cael eu cyflogi gan bob Awdurdod Lleol ac yn cydweithio ar draws y tri hyb ardal a'r rhanbarth yn gyffredinol yn ôl yr angen er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol. Mae ERW felly yn cyflogi tîm canolog gweinyddol bychan yn unig, sy'n cefnogi'r Rheolwr Gyfarwyddwr a rhai aelodau o staff ar secondiad wedi'u hariannu gan grantiau. Mae'r model hwn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd wrth ddarparu yn hytrach na chyflogi pob ymgynghorydd her yn uniongyrchol, o ystyried yr ardal ddaearyddol mae'r rhanbarth yn ei chwmpasu.

Cafodd y cyfraniadau tuag at gostau'r tîm canolog eu rhannu rhwng y chwe Awdurdod Lleol ar sail nifer y disgyblion ar gyfer 2015/16:

| **Awdurdod Lleol** | **% o'r disgyblion yn y Rhanbarth** | **Cyfraniad** |
|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 20.9% | £52,250 |
| Ceredigion | 7.4% | £18,500 |
| Castell-nedd Port Talbot | 15.9% | £39,750 |
| Sir Benfro | 14.1% | £35,250 |
| Powys | 14.4% | £36,000 |
| Dinas a Sir Abertawe | 27.3% | £68,250 |
| **Cyfanswm** | **100.0%** | **£250,000** |

Defnyddiwyd y canrannau hyn hefyd ar gyfer dosbarthu cronfeydd wrth gefn ar draws y chwe awdurdod lleol.

Mae £223k o gostau'r tîm canolog wedi cael eu hariannu gan grantiau amrywiol Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2015/16, derbyniwyd cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru na fyddent yn ceisio unrhyw ad-daliad o grantiau penodol 2014/15 na chawsant eu hawlio gan awdurdodau lleol gan fod Consortiwm ERW yn ei gyfanrwydd wedi gorwario ei ddyraniad. Cyfrannodd hyn £65k at y cronfeydd wrth gefn.

### 1.2 Goblygiadau a Risgiau

Ni ragwelir bod unrhyw ymrwymiadau neu rwymedigaethau nas cyllidwyd ar eu cyfer yn codi o 2015/16 na all y Consortiwm eu bodloni.

## 2. BUDDSODDI CYFALAF

Nid oedd unrhyw wariant cyfalaf yn 2015/16. Mae grantiau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru yn cael eu dosbarthu'n uniongyrchol i'r Awdurdod Lleol perthnasol.

## 3. ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU

### 3.1 Asedau Cyfredol a Rhwymedigaethau Cyfredol

Cyfanswm gwerth dyledwyr ERW oedd £1.720m, sef yn bennaf incwm grant sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cymru. Nid oes materion wedi'u nodi mewn perthynas ag amharu ar y rhain neu unrhyw asedau cyfredol eraill.

Nid oes unrhyw faterion wedi'u nodi ynghylch talu rhwymedigaethau cyfredol.

### 3.2 Rhwymedigaeth Pensiwn

Mae ERW yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn - Cronfa Bensiwn Dyfed a Chronfa Bensiwn yr Athrawon.

**3.2.1** Mae **Cynllun Pensiwn Dyfed** yn cael ei weinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin, ac mae'n gynllun buddiant diffiniedig a ariennir y mae cyflogeion a Chyd-bwyllgor ERW fel cyflogwyr yn talu cyfraniadau iddo. O fis Ebrill 2014 mae pensiynau yn seiliedig ar bensiwn cyfartalog gyrfa yn hytrach na phensiynau cyflog terfynol (ar gyfer yr elfen ar ôl Ebrill 2014 yn unig).

Mae'r cynllun yn amodol ar brisiadau actiwaraidd bob tair blynedd statudol i sicrhau y gall y gronfa fodloni ei rhwymedigaethau yn y dyfodol, a chynhaliwyd y prisiad diwethaf yn 2013. Mae Cronfa Dyfed wedi gweld cynnydd yn ei diffyg net.

### 3.2.2 Goblygiadau a Risgiau

O dan y Cytundeb rhwng Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru, roedd un o'r adolygiadau polisi arfaethedig yn cynnwys ystyried nifer a strwythur sefydliadol cronfeydd pensiwn yng Nghymru.

Mae'r dyddiad "cyflawni" ar gyfer cofrestru staff yn awtomatig yn y Cynllun wedi cael ei ohirio dros dro, fel y caniateir o dan y rheoliadau, tan 2017.

Mae'r prif risgiau sy'n wynebu Cyd-bwyllgor ERW yn ymwneud â:

- Cyfanswm nifer y cyfranwyr i'r gronfa o gymharu â nifer y pensiynwyr yn gostwng yn sylweddol gan arwain at gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr uwch.

- Unrhyw gynnydd canlyniadol yng nghyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr yn codi o'r diwygiadau a amlinellir uchod neu berfformiad economaidd gwael buddsoddiadau Cronfa Dyfed.

O ystyried y nifer bach o gyflogeion a gyflogir gan ERW mae ei amlygiad i'r risgiau hyn yn fach.

### 3.2.3 Cynllun Pensiwn Athrawon

Mae'r cynllun yn cael ei weinyddu gan yr Adran Addysg. Mae hwn yn gynllun heb ei ariannu, sy'n golygu nad oes unrhyw asedau buddsoddi wedi cronni i gwrdd â chostau pensiwn cyn iddynt godi, ac felly nid oes unrhyw asedau neu rwymedigaethau'r gronfa yn ymddangos ar Fantolen Cyd-bwyllgor ERW.

### 3.2.4 Goblygiadau a Risgiau

Cyflwynodd y Llywodraeth ddiwygiadau i bensiynau athrawon o Ebrill 2015. Bydd pensiynau yn y dyfodol yn seiliedig ar bensiwn cyfartalog gyrfa yn hytrach na phensiynau cyflog terfynol.

Mae'r prif risg sy'n wynebu Cyd-bwyllgor ERW yn ymwneud â:

- Y cynnydd canlyniadol yng nghyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr yn codi o'r cymarebau cyfranwyr i bensiynwyr yn syrthio ac o'r diwygiadau a amlinellir uchod.

### 3.3 Cronfeydd wrth Gefn a Balansau y gellir eu Defnyddio

#### 3.3.1 Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol

Mae'r gronfa wrth gefn hon yn golygu balans gweithredol ERW ac mae'n cael ei chynnal i gwrdd â digwyddiadau gweithredol o ddydd i ddydd.

#### 3.3.2 Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd

Mae'r rhain yn golygu balansau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn at ddibenion penodol a byddant yn cael eu defnyddio yn unol â'r gofynion penodol hynny. Bydd cronfa weithiol o £100k yn cael ei chreu yn 2016/17 er mwyn darparu lefel ddigonol o gyllid i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl.

## 4. BUDDIANNAU SYLWEDDOL

Mae gofyn i aelodau Cyd-bwyllgor ERW, Swyddogion Arweiniol a Swyddogion y Bwrdd Gweithredol ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau posibl sy'n codi o gyflogaeth a threfniadau eraill. Nid oes unrhyw wrthdaro buddiannau i'w adrodd.

## 5. TALIADAU I ARCHWILWYR

Amcangyfrifir y bydd £13k yn cael ei dalu i Swyddfa Archwilio Cymru am ei waith yn archwilio datganiadau ariannol 2015/16. Bydd yr holl ardystio grantiau yn destun Archwiliad Mewnol fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

## 6. DIGWYDDIADAU AR ÔL LLUNIO'R FANTOLEN

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau a farnwyd yn rhai pwysig i sefyllfa ariannol ERW ar 31 Mawrth 2016, a ddigwyddodd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond cyn y dyddiad adrodd cychwynnol o 31 Mai 2016.

Bydd unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd rhwng 31 Mai 2016 a 15 Gorffennaf 2016, y dyddiad y bydd y Datganiad o Gyfrifon archwiliedig yn cael ei awdurdodi i'w gyhoeddi gan y Swyddog A151, yn cael eu hadrodd a'u cymeradwyo gan Gyd-bwyllgor ERW.  Nid oes unrhyw ddigwyddiadau i'w hadrodd.

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cydbwyllgor Ein Rhanbarth ar Waith**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig Cydbwyllgor Ein Rhanbarth ar Waith ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor Ein Rhanbarth ar Waith yn cynnwys y Datganiad Symudiadau i Gronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalen 11, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad o gyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â'r Safonau Moesegol i Archwilwyr a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd ar Faterion Ariannol.

**Cwmpas archwilio'r datganiadau ariannol**

Mae archwiliad yn golygu casglu tystiolaeth am y symiau a'r hyn a ddatgelir yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, pa un a achosir hynny gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyd-Bwyllgor Ein Rhanbarth ar Waith ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, rwyf wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol rhag ofn bod anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson â hi. Os byddaf yn dod ar draws unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol tebygol, byddaf yn ystyried goblygiadau hyn ar gyfer fy adroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyd-Bwyllgor Ein Rhanbarth ar Waith**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor Ein Rhanbarth ar Waith ar 31 Mawrth 2016 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16.

**Barn am faterion eraill**
Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Esboniadol yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad**
Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gytûn â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**
Rwy'n tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor Ein Rhanbarth ar Waith yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru.



**Ar gyfer ac ar ran**
**Huw Vaughan Thomas Archwilydd**
**Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**17 Gorffennaf 2016**

**DATGANIAD O GYFRIFON**

**CYD-BWYLLGOR CONSORTIWM DE-ORLLEWIN A CHANOLBARTH Cymru,**

**ERW**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD**

**Cyfrifoldebau Cyd-bwyllgor ERW**

Mae'n ofynnol i Gyd-bwyllgor ERW:

- I wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn gywir ac i sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyd-bwyllgor ERW hwn, y swyddog hwnnw yw Prif Swyddog Cyllid Cyngor Sir Penfro.
- I reoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

**Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid**
Y Prif Swyddog Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad o Gyfrifon y Cyd-Bwyllgor yn unol ag arferion priodol fel y nodir yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- Dod i farn ac amcangyfrifon oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- Cydymffurfio â'r Cod.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

- Cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfredol;
- Cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

**TYSTYSGRIF Y PRIF SWYDDOG CYLLID**

Mae Datganiad o Gyfrifon Cyd-bwyllgor Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru ERW am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2016 wedi'i gynnwys ar dudalennau 13 i 32, a chaiff ei gynhyrchu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio Llywodraeth Leol (Cymru) 2014. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi cynnwys y Datganiad o Gyfrifon ac mae'r farn archwilio yn cael ei mynegi ar y cynnwys yn unig.

Tystiaf fod y cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru ERW ar 31 Mawrth 2016 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2016 ac atodaf fy llofnod i'r Datganiad yn unol â Rheoliad 10(1).



**J Haswell FCCA**

**Prif Swyddog Cyllid**

**DYDDIAD: 15 Gorffennaf 2016**

**ADRODD A CHYMERADWYO**

Bydd y cyfrifon hyn, a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 31 Mai 2016, yn cael eu hadrodd i Gyd-bwyllgor Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru ERW i'w cymeradwyo yn dilyn yr Archwiliad Blynyddol yn dod i ben ar 15 Gorffennaf 2016. Mae'r dystysgrif archwilio yn cael ei dangos ar dudalennau 9 - 10.

**Cadeirydd Cyd-bwyllgor Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru ERW**

**Enw: Y Cyngh. A. Thomas**

**Cyfeiriad swyddfa:** Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

**Dyddiad: 15 Gorffennaf 2016**

**DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD - EGWYDDORION SYLFAENOL**

Mae cymhwyso safonau cyfrifyddu, cysyniadau, barnau beirniadol a risgiau cynhenid, a pholisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol craidd yn cael eu nodi yn y tudalennau canlynol.

**1. ADRODDIADAU ARIANNOL**

Mae'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a Safonau Eraill sydd wedi cael eu cyhoeddi wedi cael eu cymhwyso yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol.

Mae'r Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol bod Cyd-bwyllgor ERW yn datgelu gwybodaeth am effaith newid ar ran cyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi cael ei chyhoeddi ond heb ei mabwysiadu eto gan y cod ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol. Y safonau a gyflwynwyd yng Nghod 2016/17 sy'n berthnasol yw:

- Diwygiadau i IAS 19 Buddion Gweithwyr (Cynlluniau Buddion Diffiniedig: Cyfraniadau Cyflogeion)
- Gwelliannau Blynyddol i Gylch IFRS 2010-2012
  - IFRS 2 Taliad seiliedig ar gyfranddaliad - diffiniad o gyflwr breinio
  - IFRS 3 Cyfuniadau Busnes - gan gyfrif am gydnabyddiaeth amodol mewn cyfuniad busnes
  - IFRS 8 Segmentau Gweithredol - agregu segmentau gweithredol
  - IFRS 8 Segmentau Gweithredol - cysoni cyfanswm asedau y dylid adrodd amdanynt ag asedau’r endid
  - IFRS 13 Mesur Gwerth Teg - symiau derbyniadwy a thaladwy tymor byr
  - IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar - dull ailbrisio (ailddatganiad gymesur o ddibrisiant cronedig)
  - IAS 24 Datgeliadau Parti Cysylltiedig - personél rheoli allweddol
  - IAS 38 Asedau Anniriaethol - dull ailbrisio (ailddatganiad cymesur o amorteiddiad cronedig)
- Newid i IFRS 11 Trefniadau ar y Cyd (sy'n cyfrif am Gaffaeliadau o Fuddiannau mewn Gweithrediadau ar y Cyd)
- Newid i IAS 16 Eiddo, Offer a Chyfarpar ac IAS 38 Asedau Anniriaethol (Egluro dulliau derbyniol o Ddibrisiant ac Amorteiddiad)
- Gwelliannau Blynyddol i Gylch IFRS 2012 - 2014
  - Asedau IFRS 5 nad ydynt yn gyfredol a Ddelir i'w Gwerthu a Gweithrediadau a Derfynwyd - newidiadau mewn dulliau o waredu
  - IFRS 7 Offerynnau Ariannol: Datgeliadau - gwasanaethu'r contractau
  - IFRS 7 Offerynnau Ariannol: Datgeliadau - cymhwysedd y diwygiadau i IFRS 7 i Ddatganiadau Ariannol Dros Dro cryno
  - IAS 19 Buddion Gweithwyr - Cyfradd ddisgownt: mater marchnad ranbarthol
  - IAS 34 Adrodd Ariannol Dros Dro - datgelu gwybodaeth 'Mewn mannau eraill yn yr adroddiad ariannol dros dro.'
  - Newid i IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol (Menter Datgelu)
  - Y newidiadau i fformat y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn a chyflwyniad y Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu newydd

- Y newidiadau i fformat y Cyfrif Cronfa Bensiwn a'r Datganiad Asedau Net

Mae effaith y newidiadau uchod yn annhebygol o fod yn berthnasol, ond bydd yn arwain at rai newidiadau cyflwyniadol a bydd y rhain yn cael eu datgelu yn y Datganiadau Ariannol 2016/17.

Mae'r Datganiad Cyfrifon a welir ar dudalennau 13 i 36 wedi cael ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2015/16.

## 2. CYSYNIADAU CYFRIFYDDU

Mae'r cysyniadau cyfrifyddu treiddiol canlynol wedi cael eu defnyddio wrth baratoi'r Datganiadau Cyfrifyddu Craidd:

- Croniadau
- Busnes gweithredol

Mae nodweddion ansoddol gwybodaeth ariannol yn parhau i gael eu defnyddio:

- Perthnasedd
- Cymaroldeb
- Gwiriadwyedd
- Amseroldeb
- Dealladwy
- Materoldeb
- Cynrychiolaeth ffyddlon
  - Cyflawnrwydd
  - Niwtraliaeth
  - Heb unrhyw gamgymeriadau
- Uchafiaeth gofynion deddfwriaethol

## 3. BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO POLISÏAU CYFRIFYDDU A RISG AMCANGYFRIFO

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu a nodir isod ar dudalennau 14 i 19 mae Cyd-bwyllgor ERW wedi dod i farn am drafodion cymhleth a rhai sy'n cynnwys ansicrwydd yn y dyfodol.

Er bod lefel uchel o ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol, hyd yn hyn mae Addysg wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Felly, er y gallai rhai grantiau gael eu lleihau ac o ystyried y nifer bach o weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol gan ERW, nid oes digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad y bydd gweithgareddau'r Cyd-bwyllgor yn cael eu hamharu'n ddifrifol neu eu lleihau yn y dyfodol.

Mewn rhai achosion bu'n rhaid amcangyfrif y newidiadau a wnaed yn y cyfrifon gan ddefnyddio profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol ac ati. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r tybiaethau a wnaed ac o ganlyniad gallai effeithio ar y taliadau a wneir yng nghyfrifon blynyddoedd i ddod.

Mae'r prif feysydd risg wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

| **Materion yn ymwneud ag eitemau yn y set bresennol o gyfrifon:** | | |
|---|---|---|
| **Eitem** | **Risg** | **Yr effaith bosibl** |
| Rhwymedigaethau cytundebol | Meintoliadau anghywir a her gyfreithiol | Tâl ychwanegol i'r Cyd-bwyllgor a'r Awdurdodau Partner |
| Rhwymedigaethau pensiwn | Rhagdybiaethau actiwaraidd anghywir | Cyfraniadau Cyflogwr uwch yn y dyfodol |

| **Materion a allai effeithio ar y cyfrifon yn y dyfodol** | | |
|---|---|---|
| **Eitem** | **Risg** | **Yr effaith bosibl** |
| Newidiadau mewn blaenoriaethau gwleidyddol | Llai o Gyllid | Gostyngiad mewn gwasanaeth, neu ddod â Gweithio Rhanbarthol i ben |
| Deilliannau Addysgol | Cyrhaeddiad Disgyblion ddim yn Gwella | Colli cyllid grant yn y dyfodol / Awdurdodau Partner yn gorfod cynyddu cyllid |
| Newid Demograffeg | Tybiaethau anghywir | Costau gwasanaeth a chytundebol uwch |
| Cyllid grant | Colli grant gan Lywodraeth Cymru ac Ewrop | Gostyngiad yn y ddarpariaeth o wasanaethau |
| Llywodraethu | Penderfyniadau ddim yn cael eu gwneud yn brydlon | Oedi mewn gwelliannau<br><br>Gorwariant/tanwariant o ran y gyllideb a cholli cyllid grant |
| Trawsnewid/ Darpariaeth Gwasanaeth Amgen | Nid yw ffyrdd newydd o weithio yn darparu'r arbedion ariannol a dybiwyd | Gorwariant/tanwariant o ran y gyllideb<br><br>Trefniadau cyfrifyddu ar wahân |

| | | |
|---|---|---|
| Safonau'r Gymraeg | Rhagdybiaeth anghywir | Costau gwasanaeth a chytundebol uwch |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Y Ddeddf ddim yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau | Cost camau cywirol |

## 4. POLISÏAU CYFRIFYDDU

Mae'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd i baratoi'r Datganiadau Cyfrifyddu Craidd a'r Nodiadau Ategol a Datganiadau Ariannol Atodol canlynol wedi cael eu hadolygu gan ddefnyddio Cod Ymarfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2015/16.

### 4.1 Cyffredinol

Amcan y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd fydd sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn darparu darlun "gwir a theg" o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor ERW.

Bydd y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â'r Cod Ymarfer diweddaraf ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) (y Cod) a chadw at Safonau Adrodd ac Arferion Ariannol perthnasol, oni nodir yn wahanol.

Bydd ffigurau yn cael eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol drwy ddefnyddio'r confensiwn cost a bennir gan y safon gyfrifyddu briodol.

Bydd y polisïau cyfrifyddu yn cael eu diwygio fel sy'n ofynnol gan y rhai yn y flwyddyn flaenorol i adlewyrchu newidiadau mewn gofynion adrodd gydag unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu datgelu.

### 4.2 Busnes Gweithredol, Eithriadol, Eitemau Arbennig, Addasiadau'r Flwyddyn Flaenorol a Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Rhaid i'r Datganiadau Ariannol gael eu paratoi ar sail busnes gweithredol oni bai fod bwriad gan y llywodraeth na fydd y gwasanaethau yn cael eu darparu mwyach.

Eitemau Arbennig - Ni fydd unrhyw eitemau incwm neu dreuliau yn cael eu trin fel rhai arbennig. Felly bydd pob eitem yn cael ei chynnwys o fewn un o'r llinellau penodol o'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Eitemau eithriadol - Pan fo eitemau o incwm a gwariant yn faterol, bydd eu natur a'u maint yn cael eu datgelu ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Oni y sancsiynir fel arall gan y Cod, bydd addasiadau materol o'r cyfnod blaenorol yn arwain at ailddatgan ffigurau'r flwyddyn flaenorol a datgelu effaith.

Bydd digwyddiadau materol sy'n digwydd ar ôl diwedd y cyfnod adrodd, os yw'n berthnasol ar ddyddiad y Fantolen, yn diwygio'r Datganiad o Gyfrifon. Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu datgelu gydag amcangyfrif o'r effaith ariannol debygol. Os y'i diwygiwyd ar ôl cael ei gyhoeddi cyn gorffen yr archwiliad bydd y swyddog ariannol cyfrifol yn ail-ardystio'r Datganiad o Gyfrifon diwygiedig fel un sy'n disodli'r un a gyhoeddwyd yn flaenorol. Bydd materoldeb yn cael ei ddiffinio fel y swm a amcangyfrifwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn unrhyw un flwyddyn.

### 4.3 Prydlesi a Threfniadau tebyg i Brydlesi

Cydnabyddiaeth a Dosbarthiad

Bydd prydlesi a threfniadau ariannol tebyg yn cael eu dosbarthu fel naill ai prydlesi cyllid neu brydlesi gweithredu. Mae prydlesau cyllid yn cael eu diffinio fel trefniadau lle mae'r holl risgiau a gwobrau atodol i berchnogaeth yn trosglwyddo'n sylweddol i'r prydlesai ond efallai y bydd neu na fydd y teitl yn cael ei drosglwyddo yn y pen draw. Bydd prydlesi gweithredol yn cael eu diffinio fel yr holl drefniadau eraill tebyg i brydles.
Wrth ystyried prydlesi eiddo, bydd tir ac adeiladau yn cael eu hystyried ar wahân at ddibenion dosbarthu, gyda thir sydd ag oes ddiddiwedd yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel prydles weithredol.

Prydlesi Cyllid - i'w cofnodi ar Fantolen Cyd-bwyllgor ERW fel asedau a rhwymedigaethau cyfartal yn y categori priodol ar werth teg yr eiddo neu, os yn is, gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf - y gyfradd ddisgownt a gymhwysir yw hynny sy'n berthnasol yn y les. Bydd asedau dilynol yn destun ailbrisiad a dibrisiant.

Bydd y tâl cyllid yn cael ei godi ar y cyfrif refeniw ar sail gyson dros gyfnod y brydles.

Prydlesi gweithredol - bydd y cyfan o'r rhent sy'n daladwy o dan brydlesi gweithredol yn cael ei godi ar y cyfrif refeniw ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

### 4.4 Cronfeydd wrth gefn Cyd-bwyllgor ERW (Balansau Gweithio)

Dosbarthiad

Bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu dosbarthu fel rhai y gellir eu defnyddio, ar gael i gefnogi gwariant yn y dyfodol neu' rai na ellir eu defnyddio, sef y rhai sy'n ofynnol at ddibenion cyfrifyddu ariannol.

Cronfeydd Wrth Gefn y gellir eu defnyddio

Bydd Cyd-bwyllgor ERW yn llywodraethu rheolaeth a defnydd o'r holl gronfeydd wrth gefn.

Bydd y gwariant a gyllidwyd o gronfeydd wrth gefn yn cael ei ddangos, pan mae'n digwydd, yn yr adran gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd yr amgylchiadau canlynol yn caniatáu i symiau gael eu cadw rhag refeniw:

i. ymrwymiadau materol yn bodoli ar gyfer nwyddau a gwasanaethau heb eu derbyn neu nas talwyd amdanynt erbyn 31 Mawrth
ii. Hwyluso trosglwyddo cyllid i flynyddoedd yn y dyfodol er mwyn sicrhau defnydd cost effeithiol o adnoddau a chaniatáu ar gyfer amrywiadau yn y galw am y gwasanaeth o flwyddyn i flwyddyn
iii. Neilltuo adnoddau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol neu gynlluniau wrth gefn

Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio

Bydd y cronfeydd ariannol wrth gefn canlynol yn cael eu cynnal:

i. Cronfa Bensiwn Wrth Gefn - i adlewyrchu'r sefyllfa Cronfa'r Cynllun.
ii. Cyfrif Absenoldebau Cronedig - i adlewyrchu cost hawl i absenoldeb â thâl sy'n ddyledus ond heb ei gymryd ar 31 Mawrth.

Adroddiadau

Bydd dosbarthiadau i gronfeydd wrth gefn ac oddi wrthynt yn cael eu hadrodd yn y Datganiadau Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

### 4.5 Incwm a Gwariant

Costau a Buddion Cyflogeion

Bydd cyflogau yn cael eu codi yn erbyn y cyfnodau y maent yn berthnasol iddynt ac os oes angen gwneir croniadau a amcangyfrifwyd gan ddefnyddio cyfnodau cyflog blaenorol fel

sail. Bydd addasiad yn cael ei wneud yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ystyried hawl i wyliau a gronnwyd.

Costau pensiwn - gweler polisi 4.7 isod.

Cyflenwadau a Gwasanaethau ac ati

Mae Cyd-bwyllgor ERW yn gweithredu system o groniadau a thaliadau a droswyd. Bydd credydwyr yn cael eu cronni gan daliadau terfynol ar ddiwedd cyfnod a bennwyd ymlaen llaw o'r flwyddyn ddilynol a thrwy gynnwys amcangyfrifon ar gyfer eitemau arwyddocaol sy'n ddyledus ar yr adeg hon yn seiliedig ar ddyfyniadau neu gostau'r gorffennol. Mae eithriad i'r egwyddor hon yn ymwneud â thaliadau cyfnodol trydan a phethau tebyg sy'n cael eu codi ar ddyddiad darllen mesuryddion yn hytrach na chael eu dosrannu rhwng blynyddoedd ariannol. Bydd y polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson bob blwyddyn ac felly nid yw'n cael effaith faterol ar gyfrifon unrhyw flwyddyn.

Incwm

Bydd yr holl incwm sy'n ddyledus i Gyd-bwyllgor ERW yn cael ei gyfrif ar y dyddiad dyledus a'i gydnabod ar werth teg.

### 4.6 Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill

Cyffredinol

Bydd grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau eraill yn cael eu cyfrif ar sail croniadau a phan fydd yr amodau ar gyfer eu derbyn yn cael eu bodloni a phan geir sicrwydd rhesymol y bydd y grant neu'r cyfraniad yn cael ei dderbyn.

Grantiau Refeniw a Chyfraniadau

Pan fydd grant refeniw neu gyfraniad wedi cael ei dderbyn, a'r amodau yn parhau i fod yn ddyledus ar ddyddiad y Fantolen, bydd y grant neu'r cyfraniad yn cael ei gydnabod fel derbyniad ymlaen llaw. Pan fydd amodau'r grant yn cael eu bodloni bydd yn cael ei gydnabod yn Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel incwm ac yn cael ei gyfateb yng nghyfrifon refeniw'r gwasanaeth gyda'r gwariant y mae'n berthnasol iddo.

Ad-dalu

Mewn achos o ad-daliad bydd hwn yn gyntaf yn cael ei gymhwyso i unrhyw dderbynneb neu gyfraniad a dderbyniwyd ymlaen llaw. I'r graddau y mae'r ad-daliad yn fwy nag unrhyw dderbynneb o'r fath o flaen llaw, neu lle nad oes derbyniad ymlaen llaw yn bodoli, bydd yr ad-daliad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul.

### 4.7 Buddion i Gyflogeion

Buddion yn ystod Cyflogaeth

Bydd costau cydnabyddiaeth arferol yn cael eu codi fel traul yn ystod y cyfnod y maent yn berthnasol.

Bydd croniad diwedd blwyddyn yn cael ei gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am unrhyw gostau materol sy'n codi o hawl i wyliau nas cymerwyd. Fodd bynnag, gan nad yw'n dâl at ddibenion trethiant caiff ei wyrdroi allan yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Buddion Terfynu

Bydd buddion terfynu yn cael eu codi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan mae Cyd-bwyllgor ERW yn amlwg yn ymrwymedig i derfynu cyflogaeth.

Costau Pensiwn

Bydd y cyfraniadau pensiwn a delir gan Gyd-bwyllgor ERW yn cael eu codi ar sail croniadau i'r cyfrif refeniw gwasanaeth priodol ac, ynghyd â'r cyfraniadau a wneir gan gyflogeion, yn cael eu talu i'r gronfa briodol.

Cronfa Bensiwn Dyfed - Bydd y polisïau cyfrifyddu sy'n gymwys i'r Gronfa yn cael eu pennu gan yr awdurdod gweinyddu, Cyngor Sir Caerfyrddin, sy'n cadw cyfrifon y Gronfa ac yn trefnu i wybodaeth actiwaraidd gael ei darparu i awdurdodau sy'n cymryd rhan.

Bydd Cyngor Sir Penfro, fel awdurdod cyflogi ar gyfer Cyd-bwyllgor ERW yn cynnwys costau gwasanaeth cyfredol pensiynau fel y'u cyfrifir gan actiwari'r Gronfa yng nghost gwasanaethau yn unol â gofynion Safon Adrodd Ariannol IAS19 gan fod hyn yn cael ei gyfrif fel cynllun buddion diffiniedig.

Bydd y taliadau hyn yn cael eu gwyrdroi allan yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'r cyfraniadau a delir i'r Gronfa yn cael eu cynnwys i sicrhau bod y gost gywir yn cael ei chodi ar Gyd-bwyllgor ERW.

Bydd asedau a rhwymedigaethau yn ymwneud â Chyd-bwyllgor ERW yn cael eu datgelu ar y Fantolen.

### 4.8 Stoc a Gwaith sy’n mynd Rhagddo

Bydd stoc a ddelir gan Gyd-bwyllgor ERW yn cael ei phrisio ar yr isaf o'r gost a'r gwerth gwireddadwy net.

### 4.9 Dyledwyr, Amhariad Drwgddyled a Chredydwyr

Caiff dyledwyr cyffredinol eu cydnabod yn y Fantolen a'u mesur ar werth teg o'r swm derbyniadwy pan mae refeniw wedi cael ei gydnabod. Yn y mwyafrif o achosion, bydd gwerth teg yn cyfateb i werth arian parod, ond yn cael ei disgowntio gan y gyfradd briodol yn achos dyledwyr tymor hir i adlewyrchu gwerth teg. Rhaid i'r addasiad gael ei wneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond gan nad yw'n dâl priodol i Gyd-bwyllgor ERW caiff ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

Amhariad Dyledion

Bydd lwfansau cyffredinol ar gyfer dyledion a amharwyd yn cael eu gwneud yn y Fantolen gan ddefnyddio'r canllawiau canlynol (neu mewn amgylchiadau penodol ar sail y cytunwyd arni gyda’r Swyddog A151).

| Oedran y Ddyled | % oedran o ddyled a ddarperir |
|---|---|
| Llai na blwyddyn | 50% |
| 1 i 2 flynedd | 90% |
| 2 i 3 blynedd | 100% |

Bydd y lwfans drwgddyledion yn cael ei hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol yn erbyn y dyledion heb eu talu ac addasiadau a wnaed yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel y bo’n briodol.

Caiff credydwyr cyffredinol eu cydnabod yn y Fantolen a'u mesur ar werth teg o'r swm sy’n daladwy pan mae nwyddau wedi cael eu cyflenwi neu wasanaethau wedi cael eu rhoi. Yn y mwyafrif o achosion, bydd gwerth teg yn cyfateb i werth arian parod, ond yn cael ei disgowntio gan y gyfradd briodol yn achos credydwyr tymor hir i adlewyrchu gwerth teg. Rhaid i'r addasiad gael ei wneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond gan nad yw'n dâl priodol i Gyd-bwyllgor ERW caiff ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

### 4.10 TAW

Bydd trafodion yn cael eu dangos net o TAW i'r graddau y mae'n adenilladwy/taladwy.

### 4.11 Partïon Cysylltiedig

